The Regulatory Board for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma fy niweddariad o gyfarfod diwethaf Bwrdd Rheoleiddiol Cymru. Mae'r wybodaeth yn debygol o fod o ddiddordeb cyffredinol, felly gobeithio y byddwch yn sicrhau ei bod yn cael ei rhannu'n eang o fewn eich sefydliad ac ymhlith eich rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tenantiaid.

Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (y Bwrdd) ar 29 Mawrth yn swyddfeydd newydd Tai Wales & West yn Llanisien, Caerdydd. Diolch yn fawr i Wales & West am eu lletygarwch hael a'r cyflwyniad a'r drafodaeth ddiddorol ac ysbrydoledig ynghylch beth sy'n unigryw amdanynt hwy fel busnes.

Yn uchel ar agenda'r Bwrdd oedd myfyrdodau ar sesiynau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) fel rhan o'i ymchwiliad i drefn rheoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru. Roedd y Bwrdd yn falch iawn o nodi bod atebolrwydd a thryloywder wedi dod i'r amlwg fel thema ac mae am annog pob cymdeithas dai i rannu gwybodaeth â'i thenantiaid a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd agored a gonest. Roeddem yn teimlo bod hyn yn bwysig yng nghyd-destun dyfarniadau rheoleiddiol a'r gwersi a ddysgir pan fo pethau'n mynd o chwith.

Mae dysgu gwersi o achosion cymhleth/anodd wedi bod yn bryder allweddol i'r Bwrdd ers y dechrau ac mae hefyd wedi dod i'r amlwg fel un o themâu'r Pwyllgor. Mae cyfrinachedd ynghylch materion rheoleiddiol yn aml wedi bod yn rhwystr i rannu'r gwersi hyn yn agored. Cymeradwyodd y Bwrdd gynnig gan y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio y dylai gwersi a ddysgwyd gael eu cyhoeddi mewn pob achos lle mae ymyriadau neu ddyfarniadau gweithredu statudol yn gymwys, fel rhan o'r fframwaith dyfarniadau rheoleiddiol newydd. Ar gyfer achosion hanesyddol sy'n hŷn na'r fframwaith dyfarniadau, mae'r Bwrdd yn awyddus i annog cymdeithasau tai i rannu gwersi yn wirfoddol, fel mae Cymdeithas Tai Family wedi gwneud dros y misoedd diwethaf. Bydd rhannu gwirfoddol hefyd yn cael ei annog mewn achosion newydd eraill lle mae gwersi defnyddiol wedi dod i'r amlwg. Bydd y tîm rheoleiddio yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector fel Cartrefi Cymunedol Cymru a CIH Cymru er mwyn rhannu gwersi mor eang â phosibl.

Mae'r newidiadau yn y fframwaith rheoleiddiol sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldeb ac ymreolaeth y Bwrdd ynghyd â'r diwygiadau rheoleiddiol sydd eu hangen i ddelio ag ailddosbarthu wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cydreoleiddio a rhannu gwybodaeth yn agored rhwng cymdeithasau tai a'r tîm rheoleiddio. Teimlai'r Bwrdd fod yr amgylchedd newydd hwn yn golygu bod angen ailedrych ar ddigwyddiadau arwyddocaol – y digwyddiadau hynny sy'n ddigon pwysig i olygu bod yn rhaid hysbysu'r tîm rheoleiddio amdanynt. Bydd hyn yn rhan o'r cynllun gwaith rheoleiddio ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Yn fy nodyn diwethaf, amlinellais ein cynlluniau i wneud newidiadau er mwyn rhoi llais mwy effeithiol ac amrywiol i denantiaid ym maes rheoleiddio. Mae tenantiaid wedi dweud wrthym yr hoffent gael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei gynnig. Ynghlwm wrth y nodyn hwn, atodaf y cynigion diddorol gan TPAS Cymru a gafodd eu hystyried gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr wrth i ni benderfynu gwneud y newidiadau pwysig hyn. Mae'r Bwrdd yn argyhoeddedig ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y dull gweithredu newydd hwn yn llwyddo ac mae wedi sefydlu grŵp "cyflawni", gyda minnau fel cadeirydd, i graffu'n ofalus ar gamau gweithredu a chanlyniadau. (Mae cynigion TPAS wedi'u hatodi).

Nododd y Bwrdd fod papur risg y sector wrthi'n cael ei ddiweddaru i'w gyhoeddi ym mis Ebrill/Mai. Un risg allweddol sy'n dod i'r amlwg i gymdeithasau tai yw effaith diwygiadau lles – yn enwedig yr

effaith y bydd y cap ar lwfansau tai lleol yn ei chael ar rai cymdeithasau. Pwysleisiodd y Bwrdd ei bod hi'n bwysig i bob cymdeithas dai ddeall yr effaith bosibl ar ei sefydliad gan ddefnyddio profion straen priodol a datblygu cynlluniau i liniaru'r effaith. Mae rhai sefydliadau wedi ystyried y mater hwn yn fanwl ond mae gan eraill lawer o waith i'w wneud. Ydych chi'n ymwybodol o'r effaith bosibl ar eich cymdeithas? A beth rydych chi'n bwriadu ei wneud?

Rwyf bob amser wedi pwysleisio pwysigrwydd trefniadau llywodraethu da ac mae'n bleser gennyf ddweud eleni y byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar lywodraethu. Mae'r Bwrdd yn awyddus i hwn fod yn ddarn ymarferol o waith, yn cynnwys y sector ac arbenigwyr allweddol eraill, a fydd yn datblygu darlun cywir o ansawdd trefniadau llywodraethu yn y sector gan roi tystiolaeth i helpu i lywio adolygiad Cartrefi Cymunedol Cymru o'i god llywodraethu a chymorth a hyfforddiant ym maes llywodraethu ar gyfer y sector. Caiff y gwaith ei oruchwylio gan grŵp llywio a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gymryd rhan yng ngwaith y grŵp.

Byddwn yn defnyddio'r un dull gweithredu bras ar gyfer yr adolygiad hwn ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad Gwerth am Arian. Cafodd adroddiad cynnydd ar Werth am Arian ei gyhoeddi ym mis Mawrth ( http://gov.wales/docs/desh/publications/170301-value-for-money-progress-report-feb-2017-cy.pdf) Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o argymhellion a disgwyliadau ar gyfer y sector, cymdeithasau tai unigol a'r rheoleiddiwr. Rwy'n gobeithio bod eich Bwrdd wedi ystyried sut y bydd eich sefydliad yn ymateb i'r canfyddiadau a disgwyliadau'r rheoleiddiwr.

Ystyriodd y Bwrdd ein blaenoriaethau rheoleiddio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ar frig y rhestr mae sicrhau bod y sector yn dychwelyd i'r sector preifat fel y gall ei waith hanfodol o ran darparu cartrefi newydd barhau. Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys parhau â'n gwaith ar werth am arian, ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu, sicrhau bod pob cymdeithas dai yn cael dyfarniad rheoleiddiol blynyddol, sicrhau bod gan denantiaid lais clir ac uchel ym maes rheoleiddio. Annog cymdeithasau i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer heriau yn y dyfodol drwy gynnal profion straen cadarn a defnyddio pŵer data, ar gyfer y rheoleiddiwr a chymdeithasau tai, eu tenantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Yn olaf, diolchodd y Bwrdd i Gayna Jones yn ei chyfarfod olaf â'r Bwrdd Rheoleiddiol. Mae Gayna wedi bod yn aelod o'r Bwrdd ers 2010 ac mae ei chyfraniad a'i gwaith caled wedi bod yn hollbwysig o ran cadw trefniadau rheoleiddio ar y trywydd cywir yn ystod y blynyddoedd hynny. Teimlaf fod Gayna wedi gadael etifeddiaeth wych i'r Bwrdd adeiladu arni i'r dyfodol.

Helen White (Cadeirydd)
Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

# Tenantiaid a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

## TROSOLWG

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis TPAS Cymru i ddarparu gwasanaethau Cyfranogiad Tenantiaid ar hyd a lled Cymru am y 2 flynedd nesaf. Gofynnwyd inni gefnogi'r Panel Cynghori Tenantiaid. Ar ôl siarad â rhanddeiliaid, gan gynnwys y tîm Rheoleiddiol, ac yn dilyn arsylwi ar yr ymdrechion recriwtio a'r cyflwyniadau ail-lansio presennol, dymunwn awgrymu model arall ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid gyda Bwrdd Rheoleiddiol Cymru er mwyn iddo ei ystyried.

## MODEL ARALL – DEFNYDDIO PŴER PRESENNOL 'LLAIS TENANTIAID'

Mae gan TPAS Cymru nifer o gryfderau unigryw y mae modd eu defnyddio i ddiwallu amcanion llais tenantiaid wrth ddatblygu polisi Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.

1) Mae gennym ddigwyddiadau a rhwydweithiau wyneb yn wyneb pwerus sy'n cael eu cefnogi gan gronfa ddata o denantiaid ar draws Cymru. Mae'r rhain yn drawiadol ond nid ydynt yn cael eu defnyddio ddigon o ran datblygu rheoliadau. Mae digwyddiadau rhwydweithiau presennol yn cael eu cynnal ar hyd a lled gogledd, de a gorllewin Cymru ac maent yn cynnwys rhwydwaith i denantiaid, rhwydwaith anabledd, defnyddwyr gwasanaeth, swyddogion a chyfathrebwyr digidol ac ati ar wahân. Mae hefyd nifer o bobl yn mynychu ein digwyddiadau Craffu, Gwerth am Arian ac ati ledled Cymru.
2) Mae panel newydd ei ddatblygu o denantiaid, sef 'Pwls Tenantiaid' sy'n dymuno cymryd rhan yn ddigidol mewn arolygon, rhoi adborth a chyfrannu yn eu hamser eu hunain heb fynychu pwyllgorau nad ydynt yn perfformio. (Pwynt a wnaed hefyd yn ddiweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet, Carl Sargeant, yng nghynhadledd Cartrefi Cymunedol Cymru).
3) Mae gennym gyfryngau cymdeithasol a sianeli e-byst datblygedig sy'n ennyn diddordeb tenantiaid a swyddogion tenantiaid ledled Cymru. Gellir defnyddio hyn i gynyddu adborth.

## PAM Y MAE ANGEN I NI DDEFNYDDIO'R SIANELI LLAIS TENANTIAID HYN

Mae angen i'r sector weld yn gliriach pa faterion y mae'r Bwrdd Rheoleiddiol yn dymuno cael mewnbwn arnynt gan denantiaid.

Os caiff hyn ei nodi'n glir, bydd modd i TPAS Cymru gynghori ar y sianeli a'r digwyddiadau mwyaf priodol a'u dewis er mwyn i lais tenantiaid gael ei glywed. Mae angen i ni gael darlun meintiol ac ansoddol.

Er enghraifft, os yw Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn dymuno gwybod barn tenantiaid ag anableddau ar agwedd o reoliad, byddem yn ei drosglwyddo i'r Rhwydwaith Anableddau. Mae nifer da yn bresennol yn y digwyddiadau hyn (sy'n cael eu cynnal yn ne, gorllewin a gogledd Cymru), sy'n cynnwys dros 80 o denantiaid ag amrywiaeth eang o anableddau. Rydym yn casglu darlun, gan gynnwys allbwn fideo yn y digwyddiadau hyn. Yn aml, mae pob tenant yn bresennol ar ran grwpiau anabledd ehangach o fewn eu grŵp Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu eu cymuned eu hunain. Maent mewn sefyllfa well i roi barn na grŵp bychan o denantiaid arbenigol.

Yn yr un modd, mae nifer o bobl yn mynychu ein digwyddiadau Diweddariadau Rheoleiddio, Craffu a Gwerth am Arian. Dyma le hoffem weld cynrychiolwyr o Fwrdd Rheoleiddio Cymru / Llywodraeth Cymru yn bresennol, i ymgysylltu â thenantiaid neu TPAS Cymru i hwyluso ymchwil a'r darlun.

Er enghraifft, 3 wythnos yn ôl daeth 34 o'r bobl fwyaf profiadol ym maes Craffu Tenantiaid ynghyd mewn ystafell ar gyfer dosbarth meistr – os ydych am gael barn ar effeithiolrwydd a gwendidau Craffu, dyna'r lle i fynd. Roedd yn ddiwrnod gonest, agored a chynhyrchiol iawn. Mae gennym ddigwyddiadau ar y gweill ar gyfer Gwerth am Arian.

Mewn byd ar ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i ymgysylltu â thenantiaid a rhoi gwybodaeth iddynt am yr hyn y mae'n ei olygu, ac rydym yn cyd-gynhyrchu safon cyfranogiad tenantiaid i gefnogi'r fframwaith rheoleiddio newydd. Eto, bydd hyn yn arwain at gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu ar i fyny ac ar i lawr gyda Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.

Os yw'r Bwrdd yn edrych ar bynciau nad oes unrhyw ddigwyddiadau na rhwydweithio amlwg ar y gweill ar eu cyfer, byddem yn dadansoddi'r amcanion ac yn trefnu'r ffordd fwyaf effeithiol o geisio llais tenantiaid. Gallai fod yn ddigwyddiadau arbennig, defnyddio Rhwydwaith Pwls Tenantiaid neu ymgynghori â thenantiaid drwy ddefnyddio dulliau sy'n gynhwysol ac yn ymgysylltu megis e-bost, cyfryngau cymdeithasol a fideo.

Mae ein digwyddiadau a'n rhwydweithiau hefyd yn cynnwys tenantiaid Awdurdodau Lleol, ac rydym yn creu digwyddiadau ac yn cael cyfranogwyr ar gyfer Pwls Tenantiaid o'r Sector Rhentu Preifat a fydd yn ychwanegu safbwynt hyd yn oed yn ehangach.

Byddem hefyd yn dymuno defnyddio blogiau ar gyfer ein sianeli gan aelodau Bwrdd Rheoleiddio Cymru a chynnal cyfarfodydd ymylol yn y Gynhadledd er mwyn i'r Bwrdd amlinellu ei amcanion a chael cymorth tenantiaid.

## FELLY BETH AM FEWNBWN RHAGWEITHIOL?

Rydym yn cynnig cyfrwng cyfathrebu a fydd yn gwrando'n gyson ar themâu a phryderon sy'n codi o'n gwaith cyfranogiad tenantiaid. Byddai gofyn i staff TPAS a'r Bwrdd gasglu adborth yn rheolaidd drwy eu digwyddiadau wyneb yn wyneb, ymweliadau â landlordiaid a grwpiau tenantiaid a defnyddio rhwydwaith pwls tenantiaid i egluro a mireinio'r darlun. Yna, byddai'r darlun hwn yn cael ei drosglwyddo'n rhagweithiol i Fwrdd Rheoleiddio Cymru drwy dîm golygu bach yn seiliedig ar y tenantiaid ar Fwrdd TPAS.

Nid ydym yn rhagweld rôl i ddechrau ar gyfer recriwtio hyrwyddwyr tenantiaid (fel strwythur blaenorol y Panel Cynghori Tenantiaid) ond byddem yn cynnal adolygiad yn rheolaidd â Bwrdd Rheoleiddiol Cymru / Llywodraeth Cymru i weld a oes angen nifer cyfyngedig o hyrwyddwyr tenantiaid arnom i weithredu'n fwy annibynnol yn comisiynu, yn casglu ac yn deall y darlun y mae sianeli'r tenantiaid yn ei roi inni. Os byddai ei angen, byddem yn hwyluso'r gwaith o'i greu.

David Wilton
Cyfarwyddwr, TPAS Cymru